

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Wales Laser Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 18 Rhagfyr
2017

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mawrth
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth nesaf?	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	23

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle roddir rhybudd o Wales Laser Clinic ar 18 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, ac roedd un o'r rhain yn arwain yr arolygiad.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom fod Wales Laser Clinic wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w cleifion. Roedd systemau ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser a golau pwls dwys¹ yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr a bod yr holl weithredwyr yn gyfredol o ran eu hyfforddiant, i'w galluogi i ddefnyddio'r peiriannau'n ddiogel.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac roedd hyn yn cael ei gefnogi gan adborth cleifion y gwnaeth AGIC ei dderbyn o holiaduron.

Roedd cofnodion cleifion yn gynhwysfawr ac roeddent yn cael eu cadw'n ddiogel.

Rydym wedi gwneud rhywfaint o argymhellion yr ydym wedi gofyn i'r lleoliad eu hystyried a/neu eu gweithredu i gydymffurfio'n llwyr â'r holl safonau a rheoliadau.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion cyn y driniaeth a chyngor ar ôl triniaeth

¹Mae golau pwls dwys yn dechnoleg sy'n cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr cosmetig a meddygol i gwblhau triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetig a therapiwtig, gan gynnwys gwaredu gwallt, ffotoieuanu (e.e. trin pigmentau croen, difrod haul a gwythiennau edau) yn ogystal ag i leddfu clefydau dermatolegol megis acne.

- Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion, gan geisio adborth i wella gwasanaethau lle bo hynny'n berthnasol
- Roedd y gwasanaeth yn lân, yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd contractau ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser a golau pwls dwys yn cael eu gwasanaethu'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwr

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddaru'r holl ddogfennau â chyfeiriad e-bost newydd AGIC
- Ystyried gweithredu system arfarnu sy'n benodol ar gyfer staff yn Wales Laser Clinic

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Wales Laser Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn 23 Charles Street, Casnewydd, NP20 1JT.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 13 Ionawr 2016.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser, ynghyd â dau weithredwr laser ychwanegol.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau ar gyfer cleifion dros 18 oed gan ddefnyddio'r canlynol:

Q Plus C ND: Systemau Laser YAG a Ruby ar gyfer y driniaeth ganlynol:

- Gwaredu tatŵs

Golau pwls dwys Excelight ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Adfywio'r croen
- Namau fasgwlaidd
- Briwiau pigmentog
- Acne rhosynnaidd ac acne

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu, ac roedd y tîm wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl triniaeth i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn modd urddasol a phreifat.

Rydym wedi argymhell bod cyfeiriad e-bost AGIC yn cael ei ddiweddarau ym mhob dogfen, fel bod gan gleifion y manylion cywir os bydd angen. Yn ychwanegol, rydym wedi gofyn i'r rheolwr cofrestredig ystyried cael copïau o'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn y lleoliad ar gyfer unrhyw un na allant gael mynediad i'r rhain drwy'r wefan.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu eu sylwadau ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Cafodd cyfanswm o bedwar holiadur eu cwblhau. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Staff cwrtais a chlinig glân"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, a oedd yn cael ei llofnodi gan y claf a'r gweithredwr. Mae hyn yn cael ei wirio mewn apwyntiadau dilynol a'i gofnodi'n electronig ar gofnod y claf. Mae hyn yn sicrhau bod triniaeth yn cael ei ddarparu mewn modd diogel.

Urddas a pharch

Cyn unrhyw driniaeth, cynhelir trafodaethau gyda chleifion i sicrhau eu bod yn deall sut fydd y driniaeth yn cael ei chyflawni. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y math o ddillad y gallai claf ystyried eu gwisgo a/neu os bydd angen tynnu dillad. Lle bo hynny'n berthnasol, mae tyweli urddas yn cael eu darparu i barchu a diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion.

Mae trafodaethau cyn y driniaeth yn sicrhau bod aelod priodol o staff wedi'i neilltuo i ymgymryd â'r weithdrefn. Lle bo'n berthnasol, mae'r gwasanaeth yn defnyddio hebryngwyr ar gyfer rhai triniaethau.

Mae'r drws i'r ystafell driniaeth wedi'i gloi o'r tu fewn ac mae hyn yn sicrhau na all neb fynd i'r ystafell pan fydd triniaethau'n cael eu cynnal. Mae cleifion yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain i ddadwisgo os oes angen.

Dywedwyd wrthym fod yr ystafell driniaeth wedi'i seinglosio. Mae hyn yn sicrhau bod sgysiau yn breifat a bod gwybodaeth bersonol yn gallu cael ei thrafod heb i neb glywed.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Mae pob claf yn derbyn ymgynghoriad cyn dechrau unrhyw driniaeth fel y gall y broses a'r canlyniad/canlyniadau gael eu hesbonio'n llawn. Yn ogystal, mae risgiau ac ôl-ofal hefyd yn cael eu trafod cyn y gofynnir i glaf lofnodi'r ffurflen ganiatâd yn cadarnhau ei ddealltwriaeth a'i gytundeb i driniaeth. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni caniatâd wedi'u cwblhau a oedd yn dangos tystiolaeth o'r adrannau wedi'u ticio, gan sicrhau bod pob maes wedi'i gynnwys a bod llofnodion cleifion a staff yn amlwg.

Gwelsom fod y caniatâd i driniaeth yn cael ei gofnodi'n electronig ar gofnod y claf ym mhob triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Mae'r canllaw i gleifion yn cael ei gyhoeddi ar wefan y clinig, sy'n darparu gwybodaeth am y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y canllaw i gleifion yn cydymffurfio â'r rheoliadau; fodd bynnag, mae angen diweddarau'r ddogfen i gynnwys cyfeiriad e-bost cywir AGIC.

Cafodd datganiad o ddiben ei ddarparu ac roedd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol; fodd bynnag mae angen diweddarau'r ddogfen i adlewyrchu'r cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer AGIC.

Mae'r wefan yn cyfarwyddo cleifion i e-bostio'r clinig am gopi llawn o'r canllaw i gleifion, ond argymhellir bod copïau caled ar gael yn y clinig i sicrhau bod unrhyw glaf heb fynediad i gyfrifiadur yn cael gwybodaeth lawn am y gwasanaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn adlewyrchu cyfeiriad e-bost cywir AGIC yn unol â'r rheoliadau a darparu copïau i AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ymgynghoriadau'n cael eu darparu i bob claf cyn derbyn unrhyw driniaeth. Cafodd y rhain eu dogfennu ar ffurflenni papur a oedd yn cael eu llofnodi a'u dyddio. Cafodd yr holl wiriadau dilynol a gwblhawyd gan staff, eu cofnodi'n electronig.

Roedd holl gofnodion y cleifion yn electronig a gwnaethom nodi'r cofnodion manwl a gafodd eu gwneud, a oedd yn cynnwys y man a gafodd ei drin, ffotograffau cynnydd a nifer y lluniau.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd un gris yn arwain i mewn i'r clinig ac roedd yr holl ardaloedd cleifion wedi'u lleoli ar un llawr, gan ddarparu mynediad hawdd i unrhyw un â phroblem symudedd.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Mae gan y clinig gyfleuster ar eu gwefan i gleifion gyflwyno adborth yn ogystal â darparu holiaduron papur yn y clinig. Dywedwyd wrthym mai ychydig iawn o adborth sy'n cael ei gyflwyno, ond bod yr hyn a gasglwyd chwe mis yn ôl wedi ei ddadansoddi a'i gyhoeddi ar y wefan.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd systemau ar waith oedd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Canfuom fod y peiriant laser a golau pwls dwys yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr ac roedd gan y staff hyfforddiant cyfredol ar y defnydd o'r peiriannau.

Roedd yr ystafell driniaeth yn amlwg yn lân ac yn daclus ac roedd amserlenni glanhau ar waith i sicrhau bod tasgau dyddiol ac wythnosol wedi'u cwblhau.

Canfuom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i warchod diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr eiddo. Gwelsom dystiolaeth fod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn addas i'w pwrpas ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Darparwyd ardystiad i ddangos bod y gwiriadau gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau sydd ar waith o ran diogelwch tân. Roedd asesiadau risg tân ar waith a gwelsom dystiolaeth fod y rhain wedi cael eu hadolygu. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi cynnal hyfforddiant diogelwch tân. Dangosodd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr

allanfeydd tân. Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw ymarferion tân yn cael eu cynnal, ond bod staff yn ymwybodol o'r hyn i'w wneud pe bai argyfwng.

Cafodd yr holl staff eu hyfforddi mewn cymorth bywyd uniongyrchol ac roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Mae deunyddiau o fewn y pecyn cymorth cyntaf yn cael eu gwirio i sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad dod i ben ac felly'n ddiogel i'w defnyddio.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad yn weledol lân a thaclus. Ni chafodd unrhyw bryderon eu lleisio gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad. Yn ogystal, roedd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau'r holiadur yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod yr amgylchedd yn lân a thaclus.

Disgrifiodd y staff mewn manylder y trefniadau rheoli heintiau yn y gwasanaeth. Gwelsom hefyd fod amserlen lanhau yn cael ei chynnal yn ymwneud â thasgau glanhau bob dydd ac wythnosol.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu gwastraff clinigol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n ymdrin ag unrhyw faterion diogelu yn ymwneud ag oedolion. Roedd polisi diogelu ar waith a oedd yn cynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig clir i staff eu dilyn pe bai pryderon diogelu yn codi. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi'i hyfforddi i amddiffyn oedolion agored i niwed ac roedd yn cael ei hysbysu o unrhyw faterion neu bryderon a allai fod gan staff eraill er mwyn rhoi sylw iddynt.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth fod y peiriannau laser a golau pwls dwys wedi'u graddnodi'n rheolaidd² a'u bod yn cael eu gwasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr.

Gwelsom fod yna brotocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriannau laser a golau pwls dwys ac roedd y rhain wedi'u goruchwyllo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod cytundeb ar waith gydag Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau³ ac roedd rheolau lleol⁴ yn manylu ar weithrediad diogel y peiriannau. Roedd y rheolau hyn wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau a gwelsom eu bod wedi eu llofnodi gan staff sy'n gweithredu'r peiriannau laser/golau pwls dwys a oedd yn dangos eu hymwybyddiaeth a'u cytundeb i ddilyn y rheolau hyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod holl weithredwyr y peiriannau laser a golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁵ a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys.

²Gall graddnodi rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn aros yn gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad ac ansawdd cynnyrch gorau posibl.

³Mae'r Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau yn rhywun sy'n meddu ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad digonol o faterion sy'n ymwneud â diogelwch laser, ac yn gallu darparu cymorth proffesiynol priodol wrth bennu peryglon, wrth asesu risgiau, ac wrth gynnig unrhyw reolaethau a gweithdrefnau amddiffyn angenrheidiol. Mae llawer o Ymgynghorwyr Amddiffyn rhag Laserau hefyd yn darparu hyfforddiant mewn diogelwch laser.

⁴ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel a bod yn berthnasol i'r gwaith o reoli peiriannau laser, systemau golau pwls dwys a deuodau allyrru golau yn ddiogel o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

⁵ Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio laserau a systemau golau pwls dwys yn ddiogel.

Gwelsom fod offer amddiffyn llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr y peiriannau laser a golau pwls dwys. Roedd yr offer amddiffyn llygaid yn ymddangos yn weledol i fod mewn cyflwr da a gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau fod y sbectolau'n cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwydd ar y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn dangos pan oedd y peiriant laser/golau pwls dwys yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau'n cael eu cadw'n ddiogel bob amser. Mae'r allweddi cychwyn ar gyfer y ddau beiriant yn cael eu cadw'n ddiogel pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, gan atal mynediad anawdurdodedig.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau wedi ymweld â'r safle ac wedi cwblhau asesiad risg wedi'i ddiweddarau. Ni nodwyd unrhyw faterion i'w gwella.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod systemau addas ar waith yn y clinig, er mwyn asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, roedd y clinig yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal, yn cynnal archwiliadau o gofnodion i sicrhau cysondeb gwybodaeth ac yn asesu risgiau mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch.

Rheoli cofnodion

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel, mewn nodiadau papur ac electronig. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth fod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuom fod Wales Laser Clinic yn dîm bach, effeithiol gyda strwythur rheoli effeithiol ar waith. Roedd y staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau'n glir.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw sylwadau neu gwynion ffurfiol neu anffurfiol wedi'u cofnodi a'u hateb mewn modd amserol.

Roedd y staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser a golau pwls dwys yn gymwys.

Rydym wedi argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn ystyried gweithredu system arfarnu yn benodol ar gyfer staff yn Wales Laser Clinic.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n rheoli'r Wales Laser Clinic ac yn berchen arno. Mae'r rheolwr cofrestredig yn cael ei gefnogi gan ddau weithredwr laser/golau pwls dwys.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiâu ar waith a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu diwedddaru'n flynyddol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddyddiadau adolygu neu fersiwn i ddangos tystiolaeth o hyn, felly rydym yn argymhell bod y manylion hyn yn cael eu cofnodi i ddangos tystiolaeth fod y polisiâu a'r gweithdrefnau'n cael eu diwedddaru'n rheolaidd.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cael gwybod ar lafar am unrhyw newidiadau i bolisiâu neu weithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu am yr arferion gwaith diweddaraf.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ond yn anffurfiol. Gwnaethom argymhell y gallai'r rheolwr cofrestredig gofnodi'r cofnodion yn ffurfiol ar gyfer y rhai nad ydynt yn bresennol, a/neu er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion ar waith a'i fod yn darparu manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Roedd manylion y weithdrefn gwynion hefyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, dim ond un gŵyn oedd wedi'i derbyn yn y gwasanaeth, a rhoddwyd sylw priodol iddi.

Dywedodd pob claf oedd wedi cwblhau holiadur AGIC wrthym ei fod yn gwybod sut i wneud cwyn os byddai angen gwneud hynny.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod yr holl ddefnyddwyr awdurdodedig a oedd yn gweithredu'r peiriannau laser a golau pwls dwys wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r laserau trwy ganllawiau'r gwneuthurwyr.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ein hysbysu fod y tîm staff presennol wedi'i sefydlu'n dda. Ni fyddai defnyddwyr awdurdodedig yn defnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys cyn i hyfforddiant priodol dan oruchwyliaeth gael ei gynnal. Roedd gan yr holl staff dystysgrif ar waith gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd.

Nid yw'r rheolwr cofrestredig yn cynnal arfarniadau staff; yn lle hynny maent yn cyflwyno eu harfarniadau cyfredol a gynhelir gan eu cyflogwyr gofal iechyd y GIG. Felly, gwnaethom argymhell bod proses arfarnu ffurfiol yn cael ei sefydlu ar gyfer holl staff Wales Laser Clinic.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno proses arfarnu ar gyfer staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Wales Laser Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 18 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen diweddaru'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn adlewyrchu'r cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer AGIC, yn unol â'r rheoliadau, a darparu copïau i AGIC.	Rheoliad 6 (1) a 7(1) (f)	Wedi'i gwblhau 11 Ionawr 2018	Dr Alun Davies	Wedi'i gwblhau 11 Ionawr 2018
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Ni nodwyd unrhyw argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno proses arfarnu ar gyfer staff.	Rheoliad 20 (2) (a)	Datblygiad proffesiynol parhaus i alluogi'r staff i fod yn gyfredol ac ymgymryd ag arfarniadau ffurfiol yn unol â chanllawiau'r CNB.	Dr Alun Davies	Yn parhau: yn unol â chanllawiau'r CNB Adolygiad arfaethedig 11 Rhagfyr 2018

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Dr Alun Davies

Swydd: Rheolwr cofrestredig/Perchennog/cyfarwyddwr clinigol

Dyddiad:11 Ionawr 2018